CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Mawrth, 2026**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes yn cadeirio yn absenoldeb y Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys William

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Iwan J. Williams, Siôn Williams, Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

104. CYHOEDDIADAU'R IS-GADEIRYDDES

Dymunodd Y Cynghorydd Elin Hughes yn dda i'r Cynghorydd Carys H. Evans yn dilyn ei thriniaeth diweddar. Hefyd yr un modd dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Siôn Williams oedd ddim yn teimlo'n dda ar hyn o bryd.

Yn olaf, dymunodd yn dda I ieuenctid y fro fyddai'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd.

105. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Y Cynghorydd Efan Thomas ddiddordeb yng nghais cofnod 107(b) isod -
Cais C26/0059/32/DT – estyniad i eiddo presennol – Waun Lydan, Pengroeslon.

106. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed CHWEFROR, 2026

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 100 – cymal (2) Praesept 2026/27

Derbyniwyd ymateb Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, i bryder y Cyngor fod rhagdybiaeth y byddai'r dreth yn codi'n arthurol am y flwyddyn 2026/27, fel a ganlyn:

"Mae'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth Cyngor Gwynedd ar gyfer 2026/27 yn 5.17%, gyda 0.42% o'r cynnydd hwn yn deillio o gynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd yr Aelod Cabinet dros Cyllid yn adrodd i gyfarfod Cyngor llawn 5 Mawrth 2026 fod Cyngor Gwynedd angen cynyddu ein gwariant o £23.1 miliwn erbyn 2026/27 er mwyn "sefyll yn llonydd", sef parhau i ddarparu'r gwasanaethau rydym yn eu cyflenwi ar hyn o bryd ar y lefelau presennol. Yn anffodus, mae graddfa chwyddiant nifer o wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig yn y maes Gofal, yn sylweddol uwch na cyfradd chwyddiant gyffredinol CPI. Mae'r swm uchod yn cynnwys £9.9m uwchlaw'r raddfa chwyddiant CPI i gwrdd â phwysau anorfod ar gyllidebau'r adrannau.

Yn erbyn y £23.1 miliwn o bwysau gwariant ychwanegol, mae'r Cyngor yn derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 4.1% ar gyfer 2026/27, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £10.4m mewn ariannu allanol. Y dull o ariannu llywodraeth leol yw fod y gwahaniaeth angen ei ariannu o'r Dreth Cyngor, neu doriadau gwasanaeth.

Mae llunio'r gyllideb ar gyfer 2026/27 wedi golygu gwaith sylweddol i geisio osgoi gwneud toriadau pellach i wasanaethau i bobl mwyaf bregus Gwynedd, tra'n sicrhau fod ein gwasanaethau hanfodol ar sail ariannol gadarn. Mae hyn yng nghyd-destun pwysau ar wasanaethau sydd am arwain at ddiffyg cyllidebol o oddeutu £5.3 miliwn ar wasanaethau'r Cyngor yn 2025/26 fydd rhaid ei ariannu o gronfeydd wrth gefn.

Gallaf eich sicrhau y bydd cynghorwyr Gwynedd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r angen i gydbwyso dyletswydd sylfaenol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn erbyn y pwysau bydd unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor yn ei gael ar drigolion Gwynedd."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) Eitem 100 – cymal (5) Polisi Gosodiadau Lleol a Chytundeb Adran 106 ardaloedd Cymraeg)

Ymateb Carwyn George, Pennaeth Gwasanaeth – Cwsmeriaid a Chymunedau ADRA i bryderon anfonwyd i'w sylw gan Y Cynghorydd Gwenan Griffiths, Cadeiryddes y Cyngor:

"Diolch am y cais i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i drafod datblygiad arfaethedig Cae Capel, Botwnnog a'ch llythyr dyddiedig 27ain o Chwefror 2026 sydd wedi gosod allan y materion hoffai'r Cyngor eu trafod.

Ar ôl adolygu'r materion trafod, ymddengys bod nifer o'r pwyntiau hoffai'r Cyngor drafod yn faterion sydd eisoes wedi'u hasesu a'u dyfarnu yn unol a'r broses cynllunio statudol, neu yn fater polisi ehangach yr Awdurdod Lleol. O ganlyniad, tra nad ydi'n ymddangos bod ail-gychwyn trafodaeth ynghylch hynny am fod yn gynhyrchiol, gweler ymateb i'ch pwyntiau.

Fel man cychwyn, credwn ei fod yn bwysig eich atgoffa a'ch cyfeirio at statws safle Cae Capel, Botwnnog fel safle sydd wedi ddynodi gan yr awdurdod gynllunio fel safle dynodedig ar gyfer tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026, ar gyfer hyd at 21 eiddo. Golyga hyn, bod safle Cae Capel, ers peth amser wedi ei adnabod gan yr Awdurdod Lleol fel safle ar gyfer datblygu cartrefi. Mewn ymateb i'r argyfwng tai a blaenoriaethau yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy, mae Adra wedi ymrwymo i ddatblygu mwy o gartrefi ac yn gweithredu o fewn polisïau cynllunio a thai a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd.

Adnabod yr angen

Mae adnabod yr angen am gartrefi yn brawf o fewn y broses gynllunio statudol, darparwyd tystiolaeth anghenion tai gan Gyngor Gwynedd a Tai Teg sy'n gweinyddu'r gofrestr dai cymdeithasol a'r gofrestr dai fforddiadwy fel rhan o'r cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio. Mae'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Dilysrwydd tir

Yn ogystal a bod yn safle sydd wedi adnabod ar gyfer datblygu tai, mae'r ymgynghoriadau perthnasol gyda'r ymgynghorwyr statudol wedi cwblhau fel rhan o'r cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio. Mae eu hymatebion ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Meini prawf am dŷ

Mae'r meini prawf am eiddo cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd wedi diffinio o fewn Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd a Pholisi Dyrannu Tai Teg. Fel nodwyd yn ein llythyr dyddiedig 3ydd o Chwefror 2026 i'r Cyngor Cymuned, mae'r drefn blaenoriaethu a rhaeadru ar gyfer dyrannu eiddo ar ddatblygiad Cae Capel, Botwnnog eisoes

wedi gadarnhau gyda'r Cyngor. Cyfeiriwn at ein ymateb blaenorol sydd hefyd yn amlygu bod y cynnig yn mynd gam ymhellach i'r gofynion statudol gan yr arolygydd cynllunio.

Cynllunio chwyddiant mewn poblogaeth

Cyfeiriwn at sylw blaenorol, bod safle Cae Capel, Botwnnog yn safle sydd wedi ddynodi ar gyfer adeiladu tai, a bod hyd at 21 cartref wedi ei adnabod fel rhan o strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n gosod arweiniad o le fydd tai newydd yn cael eu datblygu, er mwyn cwrdd â'r galw. Mater polisi ehangach yr Awdurdod Lleol yw'r Cynllun Datblygu Lleol.

Problemau seilwaith (pwysedd dŵr, carthffosiaeth, ysgolion, meddygfa leol, cyswllt rhyngrwyd a trafnidiaeth)

Mae'r ymgynghoriadau gyda'r ymgynghorwyr statudol fel sy'n ofynnol fel rhan o'r broses gynllunio wedi cwblhau,

- Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod capasiti o fewn systemau cyflenwi dwr a'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus.
- Mae'r adran addysg wedi cadarnhau nid yn unig bod capasiti o fewn yr ysgolion lleol, ond bod rhagamcanion niferoedd disgyblion yn disgyn dros y blynyddoedd nesaf.
- O ganlyniad i'r bwriad i flaenoriaethu unigolion lleol ar sail y trefn blaenoriaethu a rhaeadru mae'n deg tybio bydd canran o ymgeiswyr eisoes wedi cofrestru ac yn defnyddio gwasanaethau lleol fel gwasanaethau iechyd.
- Bydd pob cartref ar safle Cae Capel yn buddio o gysylltiad rhyngrwyd 'full fibre'.
- Mae arhosfan bws wedi lleoli gyferbyn y safle ac mae cyswllt gwasanaeth bws cyhoeddus rheolaidd gyda thref Pwllheli.

Credwn mae mater i Gyngor Gwynedd a'r ymgynghorwyr statudol yw unrhyw an ghydfod ynghylch digonolrwydd yr asesiadau hyn.

Buddion i Fotwnnog

Bydd datblygiad Cae Capel, Botwnnog yn darparu 18 o gartrefi fforddiadwy, modern ac ynni-effeithlon o wahanol faint, math a daliadaeth er mwyn cyfarch yr angen am dai fforddiadwy i bobl leol, mewn ymateb i'r argyfwng tai. Mae buddion cymdeithasol ychwanegol pan ystyrir bod cartrefi newydd yn cyfrannu at gadw pobl yn lleol, sy'n dylanwadu ar gynnal ysgolion gwledig, mewn ardal lle mae pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai ac yn gorfod mudo allan o'u cynefinoedd oherwydd ffactorau fel effaith nifer o ail gartrefi.

Elw

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig, nid er elw, mae ein ymrwymiad i gefnogi'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy yn cael ei yrru gan yr angen am fwy o gartrefi yng nghyd-destun argyfwng tai, nid ar gyfer gwneud elw. Gobeithiwn bod hyn yn clirio unrhyw gamddealltwriaeth neu gamsyniad sydd wedi godi dros bwrpas Adra o fod yn datblygu mwy o gartrefi fforddiadwy i bobl lleol, fel ar safle Cae Capel, Botwnnog.

Effaith ar gymeriad a chymdeithas Gymraeg y pentref

Mae'r asesiad iaith cafodd ei gynnal fel rhan o'r broses cynllunio statudol wedi dod i'r casgliad, a'i gefnogi gan yr arolygydd cynllunio na fyddai'r cynnig o ddatblygu cartrefi fforddiadwy ar safle Cae Capel yn cael effaith niweidiol

sylweddol ar yr iaith Gymraeg. Mae ymrwymiad Adra o flaenoriaethu ymgeiswyr lleol mewn angen tai drwy gynllun gosod cytundeb 106 yn mynd peth ffordd i gydnabod a diogelu cymeriad yr ardal ond hefyd diwallu anghenion tai.

Mae canlyniadau asesiadau nifer siaradwyr Cymraeg sy'n meddiannu eiddo mewn

datblygiadau newydd Adra yn galonogol iawn, yn aml yn uwch na ffigwr gallu ieithyddol y gymuned yn ôl data'r Cyfrifiad diweddaraf, ac felly yn cael effaith bositif ar nifer siaradwyr Cymraeg. Tra bod asesiad effaith ieithyddol yn ran o'r broses gynllunio, nid yw

gallu iaith yn rhan o feini prawf cymhwyso am eiddo rhent cymdeithasol neu rhent canolraddol, sy'n seiliedig ar lefel angen ymgeisydd am gartref.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cynnig i gyfarfod, ond o ganlyniad i'r ffaith bod y materion yma eisoes wedi'u hasesu, wedi eu hymgynghori arnynt gyda'r ymgynghorwyr statudol ac wedi derbyn dyfarniad ffurfiol a therfynol, nid ydym yn ystyried bydd mynychu cyfarfod i ailagor materion sydd eisoes wedi'u cyfarch drwy'r broses statudol yn gynhyrchiol, o ystyried eich anfodlonrwydd gyda gofynion y broses gynllunio. O ganlyniad, ni fyddwn yn mynychu cyfarfod ar y materion hyn.

Mae Adra yn barod iawn i ymgynghori a thrafod camau nesaf y datblygiad gyda'r Cyngor Cymuned, petai gennych gwestiynau ymarferol am y camau nesaf e.e. y rhaglen waith, camau adeiladu, sut i gofrestru am eiddo neu hwyluso sgwrs ynglŷn unrhyw fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol, mi fyddwn yn hapus iawn trafod ymhellach.

Edrychwn ymlaen at y cyfle i ganolbwyntio trafodaethau cynhyrchiol ar y meysydd lle gallwn gydweithio'n adeiladol, er budd y gymuned."

(3) Eitem 103 – Materion Ffyrdd

Cyflwynwyd ymateb Priffyrdd Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw fel a ganlyn:

1. "Troiad am Trigwm, Sarn Mellteyrn: Mae'r coeden yn tyfu ar dir breifat ac felly nid oes modd gorfodi'r Perchennog i dynnu'r goeden er gwella gwelediad yn unig. Fodd bynnag, mae'r asiant tir, Carter Jonas, ar rhan stad Cefn Amwlch am drefnu archwiliad o'r goeden yma ac efallai fydd angen ei thynnu i lawr ar sail diogelwch beth bynnag.
2. Triongl cyffordd Trigwm, Sarn Mellteyrn: Mae'r asiant tir, Carter Jonas, wedi cytuno i cynnal archwiliad o'u coed yma hefyd, ar yr un pryd a choeden safle 1.
3. Pencruga, Pengroeslon: Mae'r gwydrau bellach wedi clirio. (12/2/26)."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

Ymhellach adroddwyd ar yr ymateb dderbyniodd Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd gan 'Go Safe' ac Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

Go Safe – ymateb yn Saesneg "I can confirm it is still in the process o making the site live. I apolgies for the delay in this matter.

Andrew Gregson, Uwch Beirinnydd Traffig Cyngor Gwynedd:

"Mae'r uned 'Gan Bwyll', fel pob corff cyhoeddus arall, o dan bwysau anferth ar hyn o bryd. Yn anffodus, mae disgwyliadau o ran ei gweithgareddau y tu hwnt i'w gallu i'w cyflawni, gyda nifer sylweddol o gwynion gôr gyrru'n cyrraedd yr uned yn wythnosol ledled Gogledd Cymru. Fel pob corff cyhoeddus, maent yn ddibynnol ar gyllid craidd Llywodraeth Cymru, ac mae hwn yn lleihau'n flynyddol yn hytrach na chynyddu. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes yn brin, ochr yn ochr â galw cynyddol. Mae gennyf nifer o lleoliadau yng Ngwynedd yn disgwyl adolygiad, a nid oes amserlen weithredol wedi ei gynnig gan yr uned.

Felly, ar hyn o bryd, rydym yn gallu nodi'r sefyllfa yn unig – mae Gan Bwyll wedi ymateb a nid yr wyf yn teimlo ei fod yn briodol i rhoi unrhyw bwysau pellach arnynt. Er hynny, mae gennych hawl i ohebu uwch swyddogion gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, ond nid yr wyf yn hollol siŵr pwy ydi'r swyddog mwyaf priodol i chi gysylltu gydag."

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a diolch i'r Cynghorydd Gareth Williams am ddyfalbarhau i bwyso am i'r mater yma gael ei ddatrys.

107. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) C26/0064/32/LL – cais llawn i godi un tyrbin gwynt newydd (yn lle tyrbin presennol) fyddai'n mesur 31m i'r hwb (46.5m i frig y llafn) gyda blwch rheoli a gwaith cysylltiol – Crugeran, Sarn Mellteyrn.
(b) Cais C26/0059/32/DT – estyniad i eiddo presennol – Waun Lydan, Pengroeslon.
(Datganodd Y Cynghorydd Efan Thomas ddiddordeb yn y cais yma ac ymadawodd a'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).
(c) Cais C26/0069/32/DT – estyniad un llawr i edrychiad dwyrain yr eiddo – Pentir, Bryncroes.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

108. AWDURDOD I DALU

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:
Y Clarc - £420 (siec 200885)
HMRC - £105 (siec 200886)
Neuadd Goffa Sarn – tâl hurio (3 cyfarfod) (siec 200887)
Canolfan Bryncroes – tâl hurio (3 cyfarfod) (siec 200888)
Festri Capel Rhydbach, Botwnnog – tâl huro (3 cyfarfod) (siec 200889)
Festri Capel Hebron, Llangwnnadl – tâl hurio (2 gyfarfod) (siec 200890)
Congl Meinciau – tâl hurio (2 gyfarfod arbennig) Adrododd y Cynghorydd Carys H. Evns nad oedd tâl – diolchwyd iddi.
Awdurdodwyd ymhellach dalu'r Cynghorydd Dylan Parry Jones am y pren ar gyfer sedd i'r lloches bws ger Y Feddygfa ym Motwnnog. Bellach mae'r taliad wedi ei wneud o £37.22 (siec 200894).

109. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol – copi wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen.
Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:
Aelwyd Madryn - £250 (siec 200891)
Côr Cantorion Llŷn - £200 (siec 200892)
Cylch Meithrin Ysgol Pont y Gof (siec 200893)

110. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd tynnu sylw'r Adran Priffyrdd fod y draen ger Hen Bost, Sarn Mellteyrn angen ei glanhau.
Tynnwyd sylw hefyd fod carafan wedi ei rhoi yn anghyfeithon ar y groesfan ger Y Fantol a **phenderfynwyd** anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn am gael ei symud o'r safle.
Hefyd penderfynwyd diolch i'r Adran Priffyrdd am y gwaith da a wnaed ar ail wynebu'r ffordd o droad Allt Mellteyrn am Trigwm.

111. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD – HOLIADUR CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL

Rhannwyd y wybodaeth a dderbyiwyd gan Reolwr Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd ac anogwyd yr aelodau i ymateb yn uniongyrchol i'r holiadaur.

112. RALI LLŶN 21/22 MAWRTH, 2026

Nodwyd y wybodaeth am y trefniadau ar gyfer y rali uchod.

113. **CYFEILLION LLŸN**

Cyflwynwyd e-bost gan Sian Parri dyddiedig 4ydd Mawrth ynghyd a datganiad a llythyr rhwng Cyngor Tudweiliog a Phennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd. Copi o'r ohebiaeth wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhagen.
Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

114. **TENDRAU BARBIO**

Un tendr ddaeth i law, er i ddau ymholi.
Agorodd yr Is-Gadeiryddes y tendr a **phenderfynwyd** ei dderbyn o eiddo:
J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy, Pwllheli, fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2026, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £565 + TAW**.

2. Barbio Comin Bryncroes (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) a'r Comin Bach am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2026); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £1,080 + TAW.**

3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£20.00 yr awr + TAW.**